



# Atodiad Ystadegol

## Treth Trafodiadau Tir





### Dadansoddiad o ddiwygiadau hyd at Chwarter 4, Ionawr i Fawrth 2019

Mae'r Atodiad hwn yn ystyried effaith diwygiadau a wnaed i ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r Atodiad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â [datganiad ystadegol Treth Trafodiadau Tir](#) am Chwarter 4 (Ionawr i Fawrth 2019), a bydd yn cael ei ddiweddarau bob chwarter.

Dylid ei ddarllen gyda'r datganiad hwnnw i gael esboniad o rai o'r termau a ddefnyddir. Cymerir yn ganiataol fod y darlennydd yn deall beth yw ystyr 'y dreth yn ddyledus'; 'dyddiad dod i rym'; 'preswyl cyfraddau uwch'; ac 'ad-daliadau ar gyfer cyfraddau uwch'. Mae'r dadansoddiad yn dangos:

- amcangyfrifon a gyhoeddwyd i ddechrau o'r trafodiadau a'r dreth sy'n ddyledus, fesul mis (ar sail dyddiad dod i rym).
- faint cafodd yr amcangyfrifon cychwynnol hyn eu hadolygu pan gyhoeddwyd yr ystadegau diweddaedig fis, ac yna, ddau fis yn ddiweddarach (yr ail amcangyfrif a'r trydydd amcangyfrif yn eu trefn).<sup>1</sup>

#### Siart 1: Canran y newid rhwng yr amcangyfrif cyntaf a'r ail amcangyfrif, yn ôl mis (dyddiad dod i rym)



<sup>1</sup> Er enghraifft, cyhoeddwyd tri amcangyfrif ar gyfer mis Ionawr 2019. Fe wnaethom gyhoeddi'r amcangyfrif cyntaf ar 22 Chwefror 2019, yr ail amcangyfrif ar 22 Mawrth 2019 a'r trydydd amcangyfrif ar 25 Ebrill 2019.

#### Cysylltwch â ni

Dave Jones

Ystadegydd

03000 254 729

[data@acc.llyw.cymru](mailto:data@acc.llyw.cymru)

#### Cyhoeddwyd:

25 Ebrill 2019

#### Diweddariad nesaf:

25 Gorffennaf 2019

Mae Siart 1 yn dangos bod lefelau uwch o adolygiadau i'w gweld yn gyffredinol yn y misoedd cynharaf y dechreuodd ACC gasglu Trafodiadau Tir. Felly y mae pethau, yn arbennig ar gyfer y dreth sy'n ddyledus ar drafodiadau sydd â'r dyddiad dod i rym ym mis Ebrill 2018, pan roedd 30 y cant o gynnydd yn amcangyfrif y dreth sy'n ddyledus (o'r amcangyfrif cyntaf i'r ail amcangyfrif am y mis). Disgwylid diwygio ym mis Ebrill oherwydd byddai defnyddwyr yn llai cyfarwydd â'r system, a hefyd oherwydd bod dyddiad terfynol cynharach wedi cael ei ddefnyddio yn y mis canlynol i echdynnu'r data. Fodd bynnag, mae'r ffigur o 30 y cant yn y dreth sy'n ddyledus lawer yn uwch na'r ffigur cyfatebol yn nifer y trafodiadau (10 y cant). Yr esboniad yw nad oedd ACC wedi cael gwybod am rai trafodiadau mawr, sydd â dyddiad dod i rym yn hwyr ym mis Ebrill, tan yn ddiweddarach ym mis Mai (cyn y terfyn llenwi, sef 30 diwrnod, ond ar ôl y dyddiad terfynol ar gyfer eu cyhoeddi ym mis Ebrill).

Mae Siart 1 yn dangos bod lefelau'r diwygiadau wedi gostwng yn gyffredinol dros amser. O ran trafodiadau sydd â mis Chwefror 2019 fel dyddiad dod i rym, dim ond 1 y cant o gynnydd a welwyd yn nifer y trafodiadau a 3 y cant o gynnydd a welwyd yn y treth sy'n ddyledus, rhwng yr amcangyfrif cyntaf a'r ail amcangyfrif. Mae'n debygol fod hyn wedi digwydd yn rhannol am fod cyfreithwyr a thrawsgludwyr sy'n llenwi'r ffurflenni yn dod yn fwy cyfarwydd â'r system, ac mae hyn yn gyson â gostyngiad cyffredinol yn yr amser mae'n ei gymryd i anfon adroddiadau at ACC dros yr un cyfnod (nid yw hyn wedi'i ddangos yn y tablau na'r siartiau).

Gallai rhai materion tymhorol ddylanwadu ar y data. Er enghraifft, diwygiwyd mwy ar amcangyfrifon Gorffennaf na'r misoedd o'i gwmpas. Ond, bydd angen i ni gael o leiaf flwyddyn arall o ddata i asesu unrhyw faterion tymhorol sy'n gysylltiedig â'r data.

Mae tablau 1 a 2 yn dangos:

- amcangyfrifon a gyhoeddwyd o drafodiadau a threth yn ddyledus am fis penodol (amcangyfrif cyntaf, ail amcangyfrif a thrydydd amcangyfrif);
- y newidiadau canrannol rhwng yr amcangyfrifon hyn.

**Tabl 1: Amcangyfrifon trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd: pob trafodiadau <sup>1</sup>**

Dyddiad dod i rym (mis)	Amcangyfrif cyntaf		Ail amcangyfrif		Trydydd amcangyfrif	
	Nifer	Nifer	% newid o gymharu		% newid o gymharu	
			â'r amcangyfrif cyntaf	â'r ail amcangyfrif	Nifer	â'r ail amcangyfrif
Ebrill 18	3,940	4,350	10%		4,370	0%
Mai 18	4,450	4,760	7%		4,790	1%
Mehefin 18	5,090	5,390	6%		5,420	1%
Gorffennaf 18	4,930	5,300	8%		5,310	0%
Awst 18	5,660	5,950	5%		5,970	0%
Medi 18	4,790	4,980	4%		4,990	0%
Hydref 18	5,460	5,620	3%		5,630	0%
Tachwedd 18	6,090	6,300	3%		6,320	0%
Rhagfyr 18	5,360	5,430	1%		5,440	0%
Ionawr 19	3,900	4,000	3%		4,010	0%
Chwefror 19	4,240	4,290	1%			
Mawrth 19	4,900					

<sup>1</sup> Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 trafodiad agosaf.

**Tabl 2: Amcangyfrifon treth yn ddyledus ar drafodiadau hysbysadwy a adroddwyd: pob trafodiadau <sup>1</sup>**

Dyddiad dod i rym (mis)	Amcangyfrif cyntaf		Ail amcangyfrif		Trydydd amcangyfrif	
	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	% newid o		Treth yn ddyledus (£ miliwn)	% newid o gymharu â'r amcangyfrif
			gymharu â'r amcangyfrif cyntaf	gymharu â'r amcangyfrif		
Ebrill 18	12.0	15.6	30%		15.5	-1%
Mai 18	13.5	14.4	7%		14.3	-1%
Mehefin 18	18.0	19.6	9%		19.7	1%
Gorffennaf 18	19.7	22.1	12%		22.0	0%
Awst 18	19.1	20.0	5%		19.8	-1%
Medi 18	19.4	19.9	3%		20.2	2%
Hydref 18	21.3	21.8	2%		21.7	0%
Tachwedd 18	22.7	23.3	3%		23.3	0%
Rhagfyr 18	21.4	21.5	0%		21.5	0%
Ionawr 19	16.9	17.3	2%		17.3	0%
Chwefror 19	15.1	15.6	3%			
Mawrth 19	19.7					

<sup>1</sup> Mae'r dreth yn y tabl hwn wedi cael ei thalgrynnu i'r £0.1 miliwn agosaf.

Dangosir y dreth sy'n ddyledus, net o unrhyw ad-daliadau a hawliwyd am bryniadau preswyl ar gyfraddau uwch (gweler y datganiad ystadegol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Atodiad hwn).

Cynnydd cymharol fach a welwyd rhwng yr ail amcangyfrif a'r trydydd amcangyfrif am fis. Yn gyffredinol, felly y mae pethau hefyd gyda'r amcangyfrifon hwyrach am fis (ni ddangosir hyn yn y tablau). Fodd bynnag, gwellir gweld gostyngiadau yn yr ail amcangyfrif, y trydydd amcangyfrif a'r amcangyfrifon hwyrach o'r dreth sy'n ddyledus am fis penodol. Y rheswm am hyn yw bod y data'n cael ei ddangos yn net o unrhyw ad-daliadau am drafodiadau preswyl cyfradd uwch. Gellir hawlio'r ad-daliadau hyn sawl blwyddyn ar ôl y dyddiad pryd daw'r trafodiad gwreiddiol i rym, ac maent yn cael eu dadansoddi yn y prif ddatganiad ystadegol Treth Trafodiadau Tir sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Atodiad hwn.

Yn y dyfodol, gallen ni fod yn ystyried cymhwyso ffactor grosio i amcangyfrifon cyntaf rhyw fis. Gallai hyn fod yn gymorth i ostwng nifer y diwygiadau sydd eu hangen ar amcangyfrif cyntaf y mis. Gan fod y data'n ymddangos yn anwadal hyd yma, mae'n debygol y bydd angen i ni gael sawl blwyddyn o ddata Treth Trafodiadau Tir er mwyn cyfrifo ffactorau grosio priodol.

Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn esbonio amseriad ystadegau'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir.

### **Dadansoddiad o drafodiadau preswyl ac amhreswyl**

Mae Tablau 1a i 1c a Thablau 2a i 2c ar y tudalennau canlynol yn dangos effaith diwygiadau ar ddata ar drafodiadau preswyl (prif gyfradd a chyfradd uwch) a thrafodiadau amhreswyl.

Sylwer bod Tablau 1a a 2a yn awr yn dangos y diwygiadau i ddata ar gyfer yr holl drafodion preswyl (yn hytrach na thrafodion preswyl prif gyfradd yn rhifyn blaenorol y papur hwn). Yn ogystal, mae Tabl 2b yn awr yn dangos y refeniw ychwanegol o drafodion preswyl cyfradd uwch (yn hytrach na'r holl dreth sy'n ddyledus o drafodion cyfradd uwch a ddangoswyd yn flaenorol). Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau i'r modd y cyflwynir data, a wnaed gennym yn rhifyn cyfredol y datganiad ystadegol.

Yn gyffredinol, mae modd gweld diwygiadau mwy o faint yn y data ar drafodiadau amhreswyl nag ar drafodiadau preswyl. Mae hyn yn adlewyrchu natur anwadal y trafodiadau amhreswyl, a'r ffaith eu bod yn fwy o faint yn aml.

## Amseru Ystadegau Swydddogol ar gyfer Treth Trafodiadau Tir


Mae'r diagram isod yn amlinellu'r amserlen ar gyfer adrodd ar drafodiadau sy'n destun Treth Trafodiadau Tir (TTT) i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC); a'r effaith a gaiff hyn ar amseriad ystadegau swydddogol.

Mae'r tri bar isod yn cynrychioli enghreifftiau o drafodiadau, pob un gyda dyddiadau gwahanol ar gyfer dod i rym. Mae'r bar cyntaf yn dangos lle mae dyddiad dod i rym y trafodiad (y dyddiad cwblhau, fel arfer) yn ddiwrnod 1 o fis 1, yn yr ail far y diwrnod dod i rym yw diwrnod 15 o fis 1, ac yn y trydydd bar, diwrnod 28 o fis 1.

Mae'r diagram yn tynnu sylw efallai na fydd trafodiadau sy'n digwydd yn ddiweddarach yn y mis yn cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon cyntaf ar gyfer mis 1, oherwydd y cyfnod o 30 diwrnod ar gyfer hysbysu ACC a'r dyddiad terfyn er mwyn galluogi ystadegau amserol.



### Chwarter 1



### Amseroedd cyhoeddi

Dyddiad terfyn ar gyfer amcangyfrifon: 3ydd dydd Llun y mis

Cyhoeddi'r ystadegau misol ar dydd Gwener yn yr un wythnos

Cyhoeddi'r ystadegau chwarterol ar dydd lau yn yr wythnos canlynol

**Tabl 1a: Amcangyfrifon trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd: pob preswyl <sup>1</sup>**

Dyddiad dod i rym (mis)	Amcangyfrif cyntaf		Ail amcangyfrif		Trydydd amcangyfrif	
	Nifer	Nifer	% newid o gymharu		% newid o gymharu	
			â'r amcangyfrif cyntaf	â'r ail amcangyfrif	Nifer	â'r ail amcangyfrif
Ebrill 18	3,560	3,870	9%		3,880	0%
Mai 18	4,090	4,320	6%		4,340	0%
Mehefin 18	4,700	4,940	5%		4,960	0%
Gorffennaf 18	4,540	4,830	6%		4,840	0%
Awst 18	5,230	5,450	4%		5,460	0%
Medi 18	4,400	4,530	3%		4,540	0%
Hydref 18	4,920	5,040	2%		5,040	0%
Tachwedd 18	5,590	5,770	3%		5,780	0%
Rhagfyr 18	4,850	4,900	1%		4,910	0%
Ionawr 19	3,510	3,570	2%		3,580	0%
Chwefror 19	3,810	3,850	1%			
Mawrth 19	4,310					

<sup>1</sup> Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 trafodiad agosaf.

**Tabl 1b: Amcangyfrifon trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd: preswyl cyfraddau uwch <sup>1</sup>**

Dyddiad dod i rym (mis)	Amcangyfrif cyntaf		Ail amcangyfrif		Trydydd amcangyfrif	
	Nifer	Nifer	% newid o gymharu		% newid o gymharu	
			â'r amcangyfrif cyntaf	â'r ail amcangyfrif	Nifer	â'r ail amcangyfrif
Ebrill 18	920	1,000	9%		1,000	0%
Mai 18	1,000	1,080	8%		1,080	0%
Mehefin 18	1,130	1,180	4%		1,180	0%
Gorffennaf 18	1,120	1,190	6%		1,180	-1%
Awst 18	1,210	1,260	4%		1,240	-2%
Medi 18	1,000	1,020	2%		1,020	0%
Hydref 18	1,160	1,200	3%		1,190	-1%
Tachwedd 18	1,280	1,320	3%		1,310	-1%
Rhagfyr 18	1,090	1,100	1%		1,090	-1%
Ionawr 19	920	940	2%		940	0%
Chwefror 19	970	970	0%			
Mawrth 19	1,150					

<sup>1</sup> Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 trafodiad agosaf.

**Tabl 1c: Amcangyfrifon trafodiadau hysbysadwy a adroddwyd: amrheswyl <sup>1</sup>**

Dyddiad dod i rym (mis)	Amcangyfrif cyntaf		Ail amcangyfrif		Trydydd amcangyfrif	
	Nifer	Nifer	% newid o gymharu		% newid o gymharu	
			â'r amcangyfrif cyntaf	â'r ail amcangyfrif	Nifer	â'r ail amcangyfrif
Ebrill 18	380	480	26%	480	0%	
Mai 18	360	440	22%	450	2%	
Mehefin 18	390	450	15%	470	4%	
Gorffennaf 18	390	470	21%	480	2%	
Awst 18	440	500	14%	510	2%	
Medi 18	390	450	15%	460	2%	
Hydref 18	540	580	7%	580	0%	
Tachwedd 18	490	530	8%	540	2%	
Rhagfyr 18	510	530	4%	520	-2%	
Ionawr 19	390	420	8%	430	2%	
Chwefror 19	430	440	2%			
Mawrth 19	580					

<sup>1</sup> Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r 10 trafodiad agosaf.

**Tabl 2a: Amcangyfrifon treth yn ddyledus ar drafodiadau hysbysadwy a adroddwyd: pob preswyl <sup>1</sup>**

Dyddiad dod i rym (mis)	Amcangyfrif cyntaf		Ail amcangyfrif		Trydydd amcangyfrif	
	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	% newid o gymharu â'r		% newid o gymharu â'r ail	
			amcangyfrif cyntaf	amcangyfrif	ddyledus	amcangyfrif
Ebrill 18	8.6	9.6	11%	9.5	-1%	
Mai 18	10.2	10.8	6%	10.8	-1%	
Mehefin 18	13.3	13.8	3%	13.9	1%	
Gorffennaf 18	13.4	14.3	6%	14.2	0%	
Awst 18	15.7	16.4	4%	16.1	-1%	
Medi 18	14.1	14.3	2%	14.3	0%	
Hydref 18	14.9	15.2	2%	15.1	-1%	
Tachwedd 18	17.4	17.9	3%	17.8	-1%	
Rhagfyr 18	14.1	14.2	0%	14.1	0%	
Ionawr 19	10.5	10.9	3%	10.8	-1%	
Chwefror 19	10.3	10.3	0%			
Mawrth 19	12.0					

<sup>1</sup> Mae'r dreth yn y tabl hwn wedi cael ei thalgrynnu i'r £0.1 miliwn agosaf.

**Tabl 2b: Amcangyfrifon treth yn ddyledus ar drafodiadau hysbysadwy a adroddwyd: referniw ychwanegol o'r gyfradd uwch preswyl <sup>1</sup>**

Dyddiad dod i rym (mis)	Amcangyfrif cyntaf		Ail amcangyfrif		Trydydd amcangyfrif	
	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	% newid o gymharu â'r amcangyfrif cyntaf	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	% newid o gymharu â'r ail amcangyfrif	
	Ebrill 18	4.2	4.6	9%	4.6	0%
Mai 18	4.6	5.0	9%	5.0	0%	
Mehefin 18	5.3	5.5	4%	5.5	0%	
Gorffennaf 18	5.6	5.9	5%	5.9	0%	
Awst 18	5.9	6.2	5%	6.0	-3%	
Medi 18	5.2	5.3	2%	5.2	-2%	
Hydref 18	5.7	5.9	4%	5.9	0%	
Tachwedd 18	6.8	6.9	1%	6.7	-3%	
Rhagfyr 18	5.6	5.4	-4%	5.4	0%	
Ionawr 19	4.2	4.4	5%	4.3	-2%	
Chwefror 19	4.2	4.2	0%			
Mawrth 19	5.3					

<sup>1</sup> Mae'r dreth yn y tabl hwn wedi cael ei thalgrynnu i'r £0.1 miliwn agosaf. Y symiau yw cyfanswm cydrannau prif gyfradd a chyfradd uwch y trafodiadau hyn (yn cyfateb i bedwaredd golofn y data yn nhabl 1b o'r datganiad ystadegol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Atodiad hwn). Dangosir y ffigyrau yn net o unrhyw ad-daliadau a hawliwyd am bryniadau preswyl ar gyfraddau uwch.

**Tabl 2c: Amcangyfrifon treth yn ddyledus ar drafodiadau hysbysadwy a adroddwyd: amrheswyl <sup>1</sup>**

Dyddiad dod i rym (mis)	Amcangyfrif cyntaf		Ail amcangyfrif		Trydydd amcangyfrif	
	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	% newid o gymharu â'r amcangyfrif cyntaf	Treth yn ddyledus (£ miliwn)	% newid o gymharu â'r ail amcangyfrif	
	Ebrill 18	3.4	6.0	76%	6.0	0%
Mai 18	3.3	3.5	6%	3.5	0%	
Mehefin 18	4.6	5.8	26%	5.9	2%	
Gorffennaf 18	6.2	7.8	26%	7.8	0%	
Awst 18	3.3	3.7	12%	3.7	0%	
Medi 18	5.4	5.6	4%	5.9	5%	
Hydref 18	6.4	6.5	2%	6.6	2%	
Tachwedd 18	5.4	5.4	0%	5.4	0%	
Rhagfyr 18	7.3	7.4	1%	7.4	0%	
Ionawr 19	6.4	6.5	2%	6.6	2%	
Chwefror 19	4.8	5.3	10%			
Mawrth 19	7.7					

<sup>1</sup> Mae'r dreth yn y tabl hwn wedi cael ei thalgrynnu i'r £0.1 miliwn agosaf.



## Rhagor o wybodaeth

Dylid darllen yr Atodiad hwn gyda'r gyfres o [ddatganiadau ystadegol Treth Trafodiadau Tir](#), gan fod y datganiadau'n esbonio llawer o'r termau a ddefnyddir yma. Hefyd, mae datganiadau ystadegol Treth Trafodiadau Tir yn cynnwys gwybodaeth allweddol am ansawdd, gan ddisgrifio sut rydyn ni'n asesu ansawdd ystadegau Treth Trafodiadau Tir, pa mor ddibynadwy yw'r ystadegau a beth yw eu gwerth.

Mae ein [polisi interim ar gyhoeddi ystadegau swyddogol ACC](#) amlinellu'r modd y mae ystadegau ACC yn dilyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae'r polisi'n disgrifio ein harferion rhyddhau, gan wneud diwygiadau i'n hystadegau a sicrhau eu hansawdd.

---

## Adborth ac ymholiadau

Rydyn ni'n croesawu adborth a sylwadau i ddatblygu'r datganiadau hyn a datganiadau yn y dyfodol. Defnyddiwch y manylion isod i gysylltu â ni.

**Cyfryngau:** E-bost: [newyddion@acc.llyw.cymru](mailto:newyddion@acc.llyw.cymru)

**Ymholiadau:** E-bost: [data@acc.llyw.cymru](mailto:data@acc.llyw.cymru)

Ffôn: 03000 254 729

---

## Diweddariad nesaf

25 Gorffennaf 2019

---

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, oni nodir yn wahanol.

